COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN, A GYNHALIWYD NOS FERCHER, 15FED TACHWEDD 2017 AM 6.30 P.M. YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J. Davies, (Cadeirydd)
Cynghorwyr H. Fleet, M. Jones, A. Khan, P. Richards.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Mrs I. Lewis, Swyddog Byw yn y Bae, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
Mrs G. Cooper, Gwasanaethau Rheoleiddio, CBS Conwy

221/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Kealey, A. Mason, H. Meredith, J. Pearson, T. Pearson a K. Swindon.

222/17 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

Datganodd y Cynghorydd A. Khan cysylltiad personol ond heb fod yn un all ragfarnu yn eitem 8 ar yr agenda (Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn) fel un a benodwyd fel cynrychiolydd y Cyngor Tref i'r Ymddiriedolaeth.

223/17 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27ain Medi 2017.

224/17 Ymwelwyr:

a) Croesawyd Ingrid Lewis i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddi roi adroddiad byr ar lafar am y cais am gyllid allan o Gronfa Mannau Gwych Treftadaeth y Loteri (CTL) ac i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau. Anfonwyd copi o'r datganiad o ddiddordeb a gyflwynwyd i CTL i'r aelodau yn gynharach.

Cadarnhaodd Ingrid bod y datganiad o ddiddordeb yn un o'r deuddeg a lwyddodd allan o'r tri deg chwech gwreiddiol ac ar hyn o bryd mae cais llawn yn cael ei baratoi yn dilyn y gwahoddiad i gyflwyno cais. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda phartneriaid ac fe gyflwynir cais am £500,000 (tros gyfnod o dair blynedd) erbyn y dyddiad cau yn Rhagfyr. Disgwylir i'r cais ganolbwyntio ar bedwar thema allweddol;

(i) Datblygu academi 'Colwyn Creadigol' ar gyfer rhwydweithio a hyfforddiant;

(ii) Dod a'r gymuned at ei gilydd trwy gyfres o ddigwyddiadau yn seiliedig ar dreftadaeth, datblygu grwpiau newydd efo diddordebau ayb:

(iii) Denu Ymwelwyr - gan ddefnyddio amgueddfeydd symudol, pwyntiau gwrando, llwybrau realiti estynedig ayb;

(iv) Datblygu gallu'r Trydydd Sector i barhau gyda gwaith treftadaeth pan ddaw'r cyfnod cyllido o dair blynedd i ben.

Bydd y cyllid hefyd yn talu'r gost o benodi Rheolydd / Cydlynydd i'r Prosiect a gaiff ei recriwtio a'i reoli gan y Grŵp Llywio. Bydd trefn lywodraethol y prosiect dan ofal BID Colwyn.

Cadarnhaodd Ingrid bod angen dynodi a chadarnhau rŵan bod 10% o arian cyfatebol (£50,000) ar gael fel rhan o'r cais am gyllid. Mae BID Colwyn wedi cymeradwyo cyfraniad o £17,000 ac fe ofynnir i'r Cyngor Tref am gyfraniad pellach o £17,000 ac fe ofynnir i GBSC i gyfrannu'r gweddill. Dywedodd y Cadeirydd wrth Ingrid bydd ei chais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a gwahoddwyd cwestiynau gan yr Aelodau. Roedd y cwestiynau yn ymwneud a: yr amrediad o syniadau a ddaeth o'r trafodaethau cychwynnol; dymuniad i ehangu'r prosiect i holl ardal Bae Colwyn (ar hyn o bryd yn gyfyngedig gan baramedrau cyllid); ystyr ehangach treftadaeth, sydd nid yn angenrheidiol yn ymdrin â phethau hen / hanesyddol. Diolchwyd i Ingrid am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

b) Yna croesawyd Gwawr Cooper, CBSC, i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddi annerch y Pwyllgor am Ymgyrch Atal Ysbwriel a Chŵn yn Baeddu ag i ateb cwestiynau. Cyflwynodd Gwawr ei hun a rhoddodd peth wybodaeth am gefndir yr ymgyrch a gyllidwyd yn y lle cyntaf gyda grant o £60,000 yn 2014 gan Cadw Cymru'n Daclus. Daeth y cyllid hwn i ben ac nid oes gan GBS Conwy unrhyw adnoddau i barhau gyda'r ymgyrch am nad yw'n ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, baw cŵn yw'r testun mwyaf dadleuol ar stepen y drws ar bob ymgyrch etholiadol. Mae mannau eraill, yn cynnwys Hen Golwyn (trwy Gymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) gyda chymorth ariannol gan y Cyngor hwn) wedi rhoi cyllid i brynu camerâu fel bod yr ymgyrch yn parhau. Gwahoddwyd i bob Cyngor Tref a Chymuned i ymuno yn yr ymgyrch hwn erbyn hyn. Bydd pob Cyngor yn penderfynu ar hyn y gellir ei fforddio ac mi fydd hyn yn penderfynu ar ba 'fannau problemus' i dargedu pob blwyddyn. Bydd mannau problemus arferol lle bo cŵn yn baeddu angen dau gamera, arwyddion a thaflenni / deunydd marchnata i'w dosbarthu, ymweld ag ysgolion a chefnogaeth weinyddol. Bydd logo'r Cyngor Tref yn cael ei ddefnyddio ar yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd i gadarnhau ei gefnogaeth. Bydd ymgyrch o'r un fath yn cael ei gynnal ar gyfer ysbwriel neu fannau ysbwriel problemus.

O'r wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol, y gost o ymdrin ag un fan problemus yw £1,250 (yn cynnwys £700 i brynu dau gamera y gellir eu symud o gwmpas yr ardal fel bo'r gofyn). Bydd angen £550 yr un am ymgyrchoedd / mannau problemus eraill.

Dywedodd Gwawr bod yr ymgyrch yn Hen Golwyn wedi dechrau yng Ngorffennaf a hyd yn hyn, cafwyd 3 achos gorfodaeth Gorchymyn Rheoli Cŵn, 2 achos gorfodaeth ysbwriel ag 1 achos gorfodaeth cŵn yn baeddu. Mae hyn yn cyd-fynd a'r gwaith addysgiadol o anfon llythyrau a gweithio gydag ysgolion. Mae TCC yn cael ei ddefnyddio i geisio adnabod troseddwyr ac / neu

eu cŵn ac fe ellir gofyn am gymorth gan gynghorwyr gyda hyn o bryd i'w gilydd.

Cafwyd sesiwn fer o holi ag ateb gyda'r cwestiynau yn ymwneud a: y posibilrwydd o ddefnyddio papurau lleol i ddynodi troseddwyr; pobl dim yn trafferthu i roi gwybodaeth am gŵn yn baeddu am 'nad ydynt yn gweld y pwynt'; ansawdd TCC gyda'r nos (rhagorol); llai o staff a'r angen am dechnoleg i'w cefnogi.

Diolchodd y Cadeirydd i Gwawr am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

225/17 <u>Materion yn Codi o Hen Gofnodion:</u>

a. Cofnod 173/17(a) - Ymgyrch Atal Ysbwriel a Chŵn yn Baeddu: Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried unrhyw gynigion i'w cynnwys yn amcangyfrifon cyllidebol blynyddol 2018/19.

Penderfynwyd argymell bod cyllideb gychwynnol o £2,500 yn cael ei gymeradwyo i gefnogi Ymgyrch Atal Ysbwriel a Chŵn yn Baeddu yn ardal Bae Colwyn (Wardiau Bae Colwyn a Llandrillo yn Rhos) i gyd-fynd a'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn Hen Golwyn. Fe all hwn fod am y gost o naill ai pedwar camera / dau safle problemus neu dau gamera ar draws tri safle problemus yn ystod y flwyddyn.

b. Cofnod 177/17 - Cynlluniau Cynefin

Cyflwynwyd ymateb gan Shane Wetton, CBSC. Fe nodwyd bod y Clerc wedi ymateb ond ni anfonwyd e-bost o amgylch y cynghorau priodol hyd yn hyn, i fesur y lefel o ddiddordeb / cefnogaeth.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio cysylltu â Shane Wetton unwaith eto.

226/17 <u>Cyllid:</u>

a. ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 16/9/17 hyd at 31/10/17.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gyfriflenni cysoni'r banc fel yr oedd ar 30/9/2017 a rhoi awdurdod i'r Clerc a'r Cadeirydd i'w gwirio a'u llofnodi.***

c. ***Penderfynwyd derbyn yr adroddiad monitro incwm / gwariant fel yr oedd ar 30/9/2017.***

ch. ***Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth oddi wrth CCLA parthed Prisiau Cronfa Eiddo Llywodraeth Leol a Chynnyrch y Farchnad.***

227/17 <u>Llywodraeth Cymru / Y Cynulliad Cenedlaethol:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

a. Galwad am Dystiolaeth: Adolygiad o Gynghorau Cymuned a Thref

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cyflwyno ymateb drafft i'r Cyngor ar 4ydd Rhagfyr.

b. Datganiad y Gyllideb ac Adroddiad ar Bolisi Treth Cymru:

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.

c. Teithio Bws Gostyngadwy i Bobl Ifanc yng Nghymru

Penderfynwyd cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad fel y mae'n ymddangos yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.

ch. Cynllun Tocynnau Teithio Mantais Orfodol yng Nghymru

Penderfynwyd gofyn i Aelodau'r Pwyllgor anfon unrhyw sylwadau fel unigolion at y Clerc ac i roi awdurdod dirprwyol i'r Clerc, mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd, i gyflwyno ymateb cyfunol yn seiliedig ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

228/17 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

a) Cynllun Mannau Gwych Cronfa Treftadaeth y Loteri: Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y cais a ddirprwywyd iddynt am £17,000 o arian cyfatebol dros gyfnod o dair blynedd (2018-2021) i ddangos cefnogaeth i'r cais am gyllid (arian cyfatebol gan GBSC a BID Colwyn)

Penderfynwyd cadarnhau cefnogaeth i'r cais trwy addo cyfraniad o arian cyfatebol o £17,000 dros gyfnod o dair blynedd (2018-2021).

b) Cynllun Llesiant Lleol PSB Conwy a Sir Ddinbych:

Cyflwynodd y Clerc copi o'r cynllun drafft i'w ystyried gan yr Aelodau.

Penderfynwyd derbyn a nodi manylion y chwe blaenoriaeth a gynhwyswyd yng Nghynllun Llesiant drafft 2018-20123.

c) Prydain yn ei Blodau:

Fe nodwyd i Fae Colwyn cael gwahoddiad i dderbyn enwebiad gan Gymru yn ei Blodau i gystadlu yng nghystadleuaeth Prydain yn ei Blodau yn 2018. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr angen am gyllideb mwy yn 2018/19 ar gyfer y costau ychwanegol a ragwelir tuag at yr ymgyrch. Fe gydnabyddir bod bwysedd cynyddol ar gyllidebau CBSC ac efallai bydd y Pwyllgor yn gorfod talu am unrhyw gostau ychwanegol. Fe nodwyd bod cynnydd o £2,000 eisoes wedi cael ei gytuno tuag at gostau croesawu digwyddiad Gwobrwyon Cymru yn ei Blodau yn 2018.

Penderfynwyd argymell cyllideb ychwanegol o £2,000 i Golwyn yn ei Blodau yn 2018/19 tuag at unrhyw gostau ychwanegol yn ymwneud ag ymgyrch Prydain yn ei Blodau.

ch). Rhoddodd y Cynghorydd H. Fleet adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Cydbwyllgor Rheoli Theatr Colwyn a gynhaliwyd ar 13^{eg} Tachwedd. Cyflwynodd y Clerc copi o ddatganiad ariannol 2016/17. Fe nodwyd i'r cyllid

tuag at welliannau cefn llwyfan wedi cael ei dderbyn a bydd y gwaith yn dechrau tua diwedd mis Ionawr, gan olygu bydd y Theatr ar gau dros dro am unrhyw gynyrchiadau byw.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r datganiadau ariannol.

d) **Pier Victoria Colwyn:**

Cyflwynodd y Clerc copi o'r adroddiad i'r Cyngor parthed Pier Victoria Colwyn er gwybodaeth. Fe nodwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi cael eu derbyn gan y Cyngor Sir a bydd y gwaith i ddatgymalu yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd.

Penderfynwyd gohirio cais Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn am £15,000 tuag at gostau am adroddiadau / cynlluniau i fesur y dichonoldeb o'i ailddatblygu (yn amodol ar arian cyfatebol gan CTL) er mwyn disgwyl am y wybodaeth y gofynnwyd amdano yn dilyn y cyflwyniad diweddar i'r Cyngor hwn..

229/17 <u>BID Colwyn:</u>

Cyflwynodd y Clerc adroddiad gan BID Colwyn am weithgareddau / digwyddiadau dros y Nadolig yn 2017.

Penderfynwyd cymeradwyo cyfraniad £5,000 y Cyngor Tref tuag at y digwyddiadau hyn. (Cyfanswm y gost - £11,070).

230/17 <u>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:</u>

a) Cyflwynodd y Clerc Adroddiad Blynyddol drafft 2018/19 y Panel i gael ei ystyried. Cyfeiriodd yn arbennig at Adran 13 yn ymwneud a thaliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref.

Mynegwyd pryder am y defnydd o'r gair 'rhaid' ym mhenderfyniadau 44, 45 a 50, yn arbennig gan nad yw dal yn hollol glir a fydd y tâl lwfansau yn destun PAYE (didyniadau treth ag yswiriant cenedlaethol) ac o gofio'r angen i gynyddu'r gyllideb ar gyfer unrhyw gostau posibl am ofalwyr.

Penderfynwyd ymateb i'r ymgynghoriad trwy wrthwynebu'n gryf y taliad gorfodol o'r lwfansau hyn, o gofio'r costau ychwanegol / cuddiedig (costau cyflogres, oblygiadau treth, effaith ar fudd-daliadau a dderbynnir ayb). Mae'n ofynnol i gael mwy o wybodaeth am y costau ychwanegol a fydd yn bosibl <u>cyn</u> y gellir ystyried talu lwfansau gorfodol.

b) Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar i roi'r diweddariad am ymholiadau parhaus am drefniadau eraill ar gyfer y gyflogres a fydd eu hangen i alluogi talu lwfansau trethadwy i holl aelodau'r Cyngor. Fe nodwyd bydd diweddariad arall yn cael ei gyflwyno yn dilyn cyfarfod gyda Phennaeth y gyflogres CBSC, a drefnwyd ar gyfer diweddarach yn y mis.

231/17 <u>Cynllun Cynghori Yswiriant Zurich (CCYZ):</u>

Cyflwynodd y Clerc diweddariad am y newidiadau i CCYZ a manylion am seminarau 2018.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc fynychu'r seminar blynyddol mwyaf priodol (talwyd amdano eisoes trwy gost aelodaeth).

232/17 <u>Grantiau:</u>

a) **Grant Mawr a Ohiriwyd:**

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, gwybodaeth ychwanegol y gofynwyd amdano gan Learning Links Rhyngwladol.

Penderfynwyd cymeradwyo talu'r grant llai o £2,500.

b) Derbyniwyd llythyrau o ddiolch / adroddiadau gan y canlynol a dderbyniodd grant am ddigwyddiad:
(i) Siop Cynghori ar Fudd-daliadau

c) **Grantiau am Ddigwyddiadau 2018/19:**

Penderfynwyd cymeradwyo lansio cyllid i Grantiau am Ddigwyddiadau ar gyfer 2018/19 a gofyn i'r Clerc hysbysebu am geisiadau i gael eu cyflwyno erbyn 31^{ain} Rhagfyr, i'w cael eu hystyried yn gynnar yn y Flwyddyn newydd.

233/17 <u>Eitem Ychwanegol Brys - Lwfansau Ward i Aelodau Lleol:</u>

Cyflwynodd y Clerc cynnig am lwfans ward gan aelodau Ward Colwyn oedd yn cyd-fynd a chanllawiau'r cynllun. Fe nodwyd bod yr eitem yn un brys oherwydd nad yw'r gwresogydd yng Nghanolfan Cymunedol Tan Lan yn gweithio hyd nes bydd wedi cael ei drwsio.

Penderfynwyd argymell cymeradwyo'r cynnig brys am Lwfans Ward.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6.30 P.M. ON WEDNESDAY 15TH NOVEMBER 2017

PRESENT: Cllr J Davies, Chairman
Cllrs: H Fleet, M Jones, A Khan, P Richards

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: Mrs I Lewis, Bay Life Office, Conwy CBC
Mrs G Cooper, Regulatory Services, Conwy CBC

119/17 Apologies for Absence:

The Chairman welcomed the visitors to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: A Kealey, A Mason, H Meredith, J Pearson, T Pearson and K Swindon.

120/17 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. The following interests were declared:
- Cllr A Khan declared a personal and non-prejudicial interest in agenda item 8 (Colwyn Victoria Pier Trust), as a Town Council appointed representative to the Trust.

121/17 Minutes:

Resolved to approve and sign as a correct record the Minutes of the last meeting, held on 27th September 2017.

122/17 Visitor(s):

a. The Chairman welcomed Ingrid Lewis to the meeting to give a brief verbal report on the HLF Great Places funding bid and respond to any questions from members. A copy of the expression of interest submitted to the HLF had previously been copied to members.

Ingrid confirmed that the expression of interest was one of twelve out of thirty six that had been successful and a full application had now been invited. A series of meetings have since been held with partner organisations and an application for £500,000 (over three years) will be submitted by the closing date in early December. This is expected to focus on four key themes:

i. Developing a 'Creative Colwyn' academy for networking and training;
ii. Bringing the community together via a series of heritage based events, developing new interest groups etc;

iii. Attracting Visitors- using pop-up museums, listening posts, augmented reality trails etc;
iv. Developing the Capacity of the Third Sector to continue with heritage work after the three year funding has come to an end.

The funding will also cover the cost of appointing a Project Manager / Co-ordinator, who will be recruited and managed by a Steering Group. Governance for the project will be provided by the Bay Life Board.

Ingrid confirmed that 10% match funding (£50,000) now needs to be identified and confirmed, as part of the funding bid. Colwyn BID has approved a £17,000 contribution, a further £17,000 is being requested from the Town Council and CCBC is being asked to make up the shortfall. The Chairman informed Ingrid that this will be considered later this evening by the Committee and members were then invited to ask questions. These covered: the range of ideas which came out of initial discussions; a desire to spread the project to the whole Bay of Colwyn area (currently restricted by funding parameters); and the broader definition of heritage, which isn't necessarily old/historic. Ingrid was then thanked for attending and she retired from the meeting.

b. The Chairman then welcomed Gwawr Cooper, CCBC, to address the Committee about the Litter & Dog Fouling Campaign and respond to questions. Gwawr introduced herself and gave some background information about the campaign, which was initially funded by a Keep Wales Tidy grant of £60,000 in 2014. This funding has now run out and CCBC does not have the resources to continue it, as it is not a statutory function. However, dog mess remains one of the most talked about issues on the doorstep at election times. Other areas, including Old Colwyn (via Old Colwyn (East) Residents Association with grant funding from this Council), have provided funding to purchase cameras to keep the campaign running and all town and community councils have been invited to support the initiative. It is up to each Council to decide what support it can afford and this will determine how many 'hotspots' can be targeted each year. A typical hotspot campaign for dog fouling will require two cameras, signage and marketing materials/leaflets for letter drops, school visit(s) and administrative support. The town council logo would be used on all publicity materials to confirm its support. A similar campaign can also be run for litter or fly tipping hotspots

From information previously supplied, costs are estimated at £1,250 for tackling one hotspot (including £700 to purchase the two cameras, which can then be moved around the area, as required). Further campaigns/hotspots would then require around £550 each.

Gwawr reported that the campaign in Old Colwyn commenced in July and to date has resulted in 3 Dog Control Order enforcements, 2 litter enforcements and 1 dog fouling enforcement. This is alongside educational activity via letter drops and working with the schools. CCTV footage is used to try to identify offenders and/or their dogs and assistance may be sought from councillors with this, from time to time.

A brief question and answer session followed, with questions asked about: the potential use of local newspapers to identify offenders; people not bothering to report fouling as they 'don't see the point'; the quality of night time footage (excellent); reduced staffing and the need for technology to support them.

The Chairman thanked Gwawr for attending and she retired from the meeting.

123/17 <u>Matters Arising from Past Minutes</u>

a. Min. 173/17(a) – Litter & Dog Fouling Campaign: Members were asked to consider any proposals, for inclusion in the 2018/19 annual budgetary estimates.

Resolved to recommend that an initial budget of £2,500 be approved to support a Litter/Dog Fouling Campaign in the Bay of Colwyn area (Colwyn Bay and Rhos on Sea wards) to complement the activity already underway in Old Colwyn. This would cover the cost of either four cameras/two hotspots or two cameras across three hotpots during the course of the year.

b. Min. 177/17 – Place Plans:

The Clerk submitted a response from Shane Wetton, CCBC. It was noted that a reply had been sent by the Clerk but an e-mail has not yet been sent around the relevant councils to gauge the level of interest/support.

Resolved to ask the Clerk to chase this matter up with Shane Wetton.

124/17 <u>Finance</u>:

a. ***Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 16/9/17 to 31/10/17.***

b. ***Resolved to receive and authorise the Chair and Clerk to check and sign a copy of the bank reconciliations as at 30/9//2017.***

c. ***Resolved to receive the income/expenditure monitoring report, as at 30/9/2017.***

d. ***Resolved to receive correspondence from CCLA regarding the Local Authority's Property Fund Prices and Dividends Yield.***

125/17 <u>Welsh Government / National Assembly:</u>

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence:

a. Call for Evidence: Community and Town Council Review

Resolved to request that the Clerk submits a draft response to the Council on 4th December.

b. Budget Statement and Welsh Tax Policy Report.

Resolved to receive and note the report.

c. Discounted Bus Travel for Younger Persons in Wales

Resolved to submit a response to the consultation, as detailed in Schedule B attached.

d. Mandatory Concessionary Fares Scheme in Wales

Resolved to request members of the Committee to individually submit any comments to the Clerk and to delegate authority to the Clerk, in consultation with the Chairman, to submit a combined response, based on any comments received.

126/17 <u>Conwy County Borough Council:</u>

To receive and consider the following correspondence:

a. **HLF Great Places Scheme:** Members were asked to consider the delegated request for £17,000 of match funding over a three year period (2018-2021) to demonstrate support for the funding bid (to be matched by CCBC and Colwyn BID).

Resolved to confirm support for the bid by way of a pledge for match funding of £17,000 over a three year period (2018-2021).

b. **Conwy & Denbighshire PSB's Local Wellbeing Plan:**

The Clerk submitted a copy of the draft plan, for consideration by members.

Resolved to receive and note details of the six priorities included in the Draft Wellbeing Plan for 2018-2023.

c. **Britain in Bloom**:

It was noted that Colwyn Bay has been invited to accept a nomination from Wales in Bloom to compete in the 2018 Britain in Bloom competition. Members were asked to consider the need for an increase in budget for 2018/19 to cover the anticipated additional costs of the campaign, recognising that CCBC budgets were coming under increasing pressure and the committee may have to cover any additional costs incurred. It was noted that a £2,000 increase has already been approved to cover the costs of hosting the 2018 Wales in Bloom Awards event.

Resolved to recommend that an additional budget of £2,000 be allocated to Colwyn in Bloom in 2018/19 to cover any additional costs relating to the Britain in Bloom campaign.

d. Cllr H Fleet gave a brief verbal report on the Theatr Colwyn Joint Management Committee meeting, held on 13th November, and the Clerk submitted a copy of the 2016/17 outturn statement. It was noted that funding had been secured for backstage improvements and work would be commencing in late January, resulting in the temporary closure of any live theatre productions.

Resolved to receive the report and financial statements.

e. **Colwyn Victoria Pier:**

The Clerk submitted, for information, a copy of the report to Council regarding Colwyn Victoria Pier. It was noted that the recommendations in the report had been approved by the County Council and dismantling works will commence in the New Year.

Resolved to defer consideration of the request from Colwyn Victoria Pier Trust for £15,000 towards the cost of the redevelopment feasibility reports/plans, (subject to match-funding from the HLF), to await the information requested following the recent presentation to this Council.

127/17 <u>Colwyn BID:</u>

The Clerk tabled a report from Colwyn BID on Christmas activities/events for 2017.

Resolved to approve the Town Council contribution of £5,000 towards these activities (total cost £11,070).

128/17 <u>Independent Remuneration Panel for Wales:</u>

a. The Clerk submitted, for consideration, the panel's draft Annual Report for 2018/19 and specifically section 13 relating to payments to Members of Community and Town Councils.

Concern was expressed about the use of 'must' in determinations 44, 45 and 50, especially since it is still not clear whether such allowances will be subject to PAYE (tax and NI deductions) and given the increase in budget that will be required to cover potential carer costs.

Resolved to respond to the consultation to strongly object to the compulsory payment of these allowances, given the potential additional/hidden costs (payroll costs, tax implications, impact on benefits received etc). Further information on all of these potential additional costs is required <u>before</u> compulsory payment of allowances can be considered.

b. The Clerk gave a brief verbal updated on her ongoing enquiries into alternative payroll arrangements, which would be necessary to enable the payment of taxable allowances to all members of the council. It was noted that a further update will be provided after a meeting with the head of payroll at CCBC, scheduled for later

this month.

129/17 <u>Zurich Local Council Advisory Scheme:</u>

The Clerk submitted an update on changes to the LCAS and details of seminars for 2018.
Resolved to authorise the Clerk to attend the relevant annual seminar (already paid for within the cost of membership).

130/17 <u>Grants:</u>

a. **Deferred Large Grant:**

The Clerk submitted, for consideration, the additional information requested from Learning Links International.

Resolved to approve payment of the reduced grant of £2,500.

b. Letters of thanks/reports were received from the following event grant recipients:
i. Benefits Advice Shop

c. **Events Grants 2018/19:**

Resolved to approve the launch of the Events Grant funding for 2018/19 and to request that the Clerk advertises for applications to be submitted by 31st December, for consideration early in the New Year.

131/17 Additional Urgent Item – Local Members Ward Allowance:

The Clerk tabled a ward allowance proposal from Colwyn ward members, which met the scheme criteria. It was noted that it was considered urgent due to the heating at the Tan Lan Community Centre not operating until repairs are carried out.

Resolved to recommend approval of the urgent Ward Allowance proposal.

The meeting closed at 8.05 p.m.
1

…….. Chairman